

Gwell Bargen i Genedlaethau'r Dyfodol – gosod yr her ar gyfer Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol - Sophie Howe

Cyflwyniad

Mae Bargeinion Dinesig yn rhoi cyfle allweddol i'n harweinyddion gwasanaeth cyhoeddus ddangos sut y maent yn cynllunio ar gyfer y dyfodol - yn mynd i'r afael â phroblemau heddiw, ond gydag effeithiau hirdymor yn flaenllaw yn eu cynllunio.

Mae'r dyddiau pan fedrem edrych ar fater sengl ar ei ben ei hunan wedi hen fynd. Nid yw pobl yn byw eu bywydau mewn seilos. Nid yw'r gallu i weithio'n dibynnu'n unig ar sgiliau ond ar ffactorau eraill megis cael system drafnidiaeth sy'n fforddiadwy ac yn hawdd ei chyrchu. Mae'n dibynnu ar iechyd da a llesiant, ag arnynt angen manau gwyrddion ac aer glân ar gyfer eu gwireddu.

Mae'r penderfyniadau a wnaed am Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ers i'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ddod i rym yn garreg filltir bwysig ym mywyd y Ddeddf. Maent yn rhoi cyfle i ni weld sut mae awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, a phartneriaid eraill yn gweithio i wireddu eu rhwymedigaethau. Hynny yw, sut y maent y bwriadu cyfrannu i eithaf eu gallu tuag at y nodau llesiant, gan ddefnyddio'r pum dull o weithio a nodir yn y Ddeddf.

Fel rhaglen 20 mlynedd mae'r Fargem Ddinesig hefyd yn cynnig cyfle anarferol a gwerthfawr i'r awdurdodau perthnasol i weithio ar amserlen hwy. Caiff cylchoedd ariannu tymor byr eu beio'n aml gan gyrff cyhoeddus am eu hanallu i greu cynlluniau hirdymor ag effeithiau hirdymor cadarnhaol, felly rydym yn disgwyl iddynt groesawu'r cyfle a gynigir iddynt gan raglen y Fargem Ddinesig i wneud yr union beth hwn.

Mae hefyd yn gyfle i ddangos sut y gallai cymhwyso'r Ddeddf i raglen fuddsoddi cyhoeddus o bwys gyflawni nid yn unig enillion economaidd a ragwelir yn y tymor-byr-i-ganolig yn y dull traddodiadol, ond hefyd gyflawni newid trawsffurfiol yn nhermau'n llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Mae'n gyfle i ymdrechu i gwrdd â heriau parhaus megis y newid yn yr hinsawdd, tloedi, anghyfartaledd, cydlynid cymdeithasol, swyddi a sgiliau mewn dull gwirioneddol hirdymor ac ataliol.

1. Pa fath o ddatblygu economaidd?

Mae'r blaenoriaethau trosfwaol ac ymagweddau ar gyfer rhaglen y Fargem Ddinesig, a bennir gan Lywodraeth y DU, yn hawlio y dylai'r prosiectau sy'n deillio o'r Fargem hon fedru cyfrannu tuag at godiad o bump y cant mewn Gwerth Ychwanegol Gros rhanbarthol yn ne ddwyrain Cymru. Fodd bynnag, nid yw mynd ati i godi Gwerth Ychwanegol Gros 'ar ei ben ei hunan' yn cyd-fynd â mynd ati i wireddu llesiant cenedlaethau'r dyfodol ac ymrwymadau cyrff cyhoeddus Cymru o dan y Ddeddf. Mae'r diffiniad statudol o 'Gymru ffyniannus' yn pennu cymwysyddion arwyddocaol nad ydynt yn agored i drafodaeth am natur a chyfeiriad datblygu economaidd, gan glymu hyn yn benodol wrth greadigaeth cymdeithas garbon isel, sy'n parchu terfynau

amgylcheddol drwy ddefnyddio adnoddau'n effeithlon a chyfrannol, a gweithredu ar y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r deg Awdurdod Lleol a Llywodraeth Cymru'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n rhaid iddynt ddangos y bydd y Fargen Ddinesig yn eu galluogi i fynd ar ôl y math priodol o ddatblygu economaidd, gan gyfrannu i eithaf eu gallu tuag at y saith nod llesiant.

Mae datblygu rhaglen yn 2016 lle nad yw carbon isel yn rhan hanfodol ohoni nid yn unig yn amgylcheddol anghyfrifol – mae hefyd yn anghyfrifol o safbwynt yr economi. Mae yna angen nid yn unig i gwrdd ag ymrwymiadau o dan Ddeddf yr Amgylchedd a Chytundeb Paris a gadarnhawyd yn ddiweddar, ond hefyd i ystyried bod y costau hirdymor i'r economi yn dilyn methiant i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a methiant i sicrhau ynni dibynadwy fforddiadwy yn mynd i fod yn arwyddocaol. Mae meddwl yn y ffordd hirdymor sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, yn golygu na all y Fargen Ddinesig anwybyddu'r costau hyn yn y dyfodol os bydd hyn yn rhoi cenedlaethau'r dyfodol mewn perygl o orfod ymdopi â'r canlyniadau, megis dyled ariannol ac amgylcheddol, y bydd yn rhaid eu talu. Er enghraifft, dangosodd ymchwil ddiweddar¹ y bydd person graddedig 21 mlwydd oed yn colli oddeutu £100,000 o incwm yn ystod eu bywyd (gyda phlant milflnyddol, bernir, yn wynebu colli tair gwaith gymaint â hynny) fel canlyniad i feichiau economaidd cysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd.

Mewn adolygiad a wnaed gan Nicholas Stern², amcangyfrifwyd y bydd y gost fyd-eang o fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd i sefydlogi lefelau CO₂e ar 500-550ppm oddeutu 1% o Gynnyrch Domestig Gros erbyn 2050, Yn fwy diweddar, mae Stern wedi datgan bod y modelu'n tanbriso peryglon cudd effeithiau'r newid yn yr hinsawdd a gallai'r costau fod yn uwch ac yn debygol o gynyddu'n barhaol hyd nes y bydd gweithredu'n digwydd ar bob lefel.³ Ar y llaw arall, mae'r manteision yn gorbwysu'r costau. Gwerth y manteision hyn yn ôl Stern fyddai tua \$2.5 triliwn dros y cyfnod canolig a'r hirdymor.

Mae rhai o'r heriau a'r cwestiynau sy'n rhaid i fargen y ddinas fynd i'r afael â hwynt yn cynnwys:

- ∞ Sicrhau bod y cyfleoedd busnes a gaiff eu dilyn drwy'r Fargen Ddinesig yn addas ar gyfer economi carbon isel. Er enghraifft, pa fath o adnoddau naturiol ac ynni y maent yn ddibynnol arnynt? A fyddant yn dal yn ymarferol o dan amodau a ragwelir yn y newid yn yr hinsawdd a'r lleihad mewn cronfeydd tanwydd ffosil?
- ∞ Sicrhau bod buddsoddi mewn seilwaith trafndiaeth, fel a gynigir, yn lleihau costau amgylcheddol teithio ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd mewn dull realisitig Rhaid ystyried ystod o senarios am anghenion teithio yn y dyfodol, megis newid

¹ <http://www.demos.org/publication/price-tag-being-young-climate-change-and-millennials-economic-future>

² http://www.wwf.se/source.php/1169157/Stern%20Report_Exec%20Summary.pdf

³ <https://www.desmogblog.com/2014/06/19/lord-stern-we-ve-underestimated-economic-costs-global-warming>

patrymaugwaith, dulliau trafniadaeth a goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio – yn ogystal â dadansoddiad cadarn o gylch bywyd y seilwaith ffisegol sy'n ofynnol.

2. Pa fath o waith, ffyniant a llesiant ac i bwy?

Nid tyfu Cynnyrch Domestig Gros yw unig bwrpas datblygu'r economi. Ni fydd hyn ar ei ben ei hunan yn gwireddu'r Gymru a garem. Mewn ffaith, mae yna dystiolaeth gynyddol sy'n dangos mai ychydig iawn a wnaed gan gynnydd yn y Cynnyrch Domestig Gros i leihau anghyfartaledd.

Mae Ymchwil yng Nghymru (e.e. yr astudiaethau Deep Place) wedi dangos bod datblygu economaidd byth a hefyd yn gadael rhannau sylweddol o'r boblogaeth ar ôl. Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn am newidiadau yn hyn o beth — nid yw dilyn ffyniant yn nod sy'n bodoli ar ei ben ei hunan, ond yn hytrach mae'n ffordd o symud tuag at lesiant yn ei ystyr ehangach. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â heriau hirdymor megis tlodi parhaus, afiechyd a gwella cyfleoedd bywyd i bawb, yn arbennig y rhai mwyaf difreintiedig.

Mae gwahaniaethau amlwg iawn mewn lefelau amddifadedd ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Gellir dod o hyd i'r manau lleiaf amddifad yn y Rhanbarth mewn rhannau deheuol o Ben-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, gogledd Caerdydd, ardaloedd maestrefol Casnewydd a rhannau o Sir Fynwy.

Gellir dod o hyd i'r manau mwyaf amddifad yng Nghymoedd de Cymru, y Barri, de Caerdydd a rhannau mewnol Casnewydd. Mae gwahaniaethau mewn cyflogaeth ac incwm yn cyfrif am ryw hanner o'r gwahaniaeth hwn: ar gyfartaledd mae diweithdra oddeutu 8%, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r UD – ond mae hyn yn amrywio o 5% yn Sir Fynwy i 13% ym Mlaenau Gwent. Mae'r rhanbarth hefyd yn cynnwys rhai manau lle mae llawer o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc (o dan 25 mlwydd oed) – 26% ym Mlaenau Gwent; 22% yn Rhondda Cynon Taf, a 20% yn Nhorfaen.⁴

Mae amrywiaeth enfawr mewn tlodi plant ar draws y rhanbarth: 34% o blant ym Mlaenau Gwent yn byw mewn tlodi mewn cymhariaeth â 15% yn Sir Fynwy, drws nesaf.

Mewn wyth o'r deg ardal Awdurdod Lleol yn y rhanbarth, mae tlodi plant yn uwch na chyfartaledd Cymru. Dengys y dystiolaeth bod plant sy'n byw mewn tlodi'n gwneud yn waeth yn yr ysgol ac yn ennill llai fel oedolion, a thrwy hyn yn bytholi'r cylch tlodi.

Amcangyfrifir gan Sefydliad Joseph Rowntree bod tlodi'n costio o leiaf £2.2 biliwn y flwyddyn i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Mae ein poblogaeth yn heneiddio ac yn dod yn fwy amrywiol. Mae disgwyliad oes yn cynyddu i bawb, ond nid yn yr un modd, ac mae disgwyliad bywyd iach yn amrywio'n ddramatig ar draws y rhanbarth. Mewn rhai rhannau o'r ardal, mae gwahaniaeth o ryw 20-mllynedd mewn disgwyliad oes iach rhwng y rhannau lleiaf a mwyaf amddifad o'r un ardaloedd, e.e. yng Nghwm Llynfi (Maesteg a Phen-y-bont ar Ogwr)⁵, neu yng Nghaerdydd

⁴ Public Health Wales Observatory

⁵ <http://www.comfirstbridgend.com/news-and-information-home/article/00000118>

a Bro Morgannwg.⁶ Ymhlith gwrywod, mae'r bwch mewn disgwyliad oes rhwng Blaenau Gwent a Sir Fynwy, drws nesaf, yn 4.5 blwyddyn.

Mae pobl ym Mlaenau Gwent nid yn unig yn byw bywydau byrrach; mae'r gyfran o'r blynyddoedd hynny a dreulir mewn iechyd da hefyd yn is. Mae'r ganran o wrywod a benywod sydd o'r farn bod eu hiechyd cyffredinol yn dda neu'n dda iawn yn amrywio'n nodedig ar draws y rhanbarth gyda dros 80% o'r rhai mewn ardaloedd gwledig ym Mro Morgannwg, gogledd Caerdydd a llawer o Sir Fynwy'n dweud bod eu hiechyd yn dda, tra mewn mannau fel y Barri, de Caerdydd a rhannau mawr o gymoedd de Cymru mae'r ffigur yn llai na 70%.

Rhaid i'r Fargen Ddinesig chwarae ei rhan mewn gwyrddio'r anghyfartaledd hwn, er enghraifft drwy hybu newid mewn patrymau gwaith a chyflogaeth, a thorri'r cylchoedd tlodi mwyaf parhaus a drosglwyddir o un genhedlaeth i'r llall.

Ar yr un pryd, mae tueddiadau byd-eang yn awgrymu y bydd llawer o waith cynhyrchu sgiliau-isel yn diflannu'n raddol wrth i ddulliau amgenach digidol ac awtomataidd ddisodli'r angen am lafur dynol. Mae'r rhain yn dueddiadau y bydd angen i'r Fargen Ddinesig ymgysylltu â hwynt dros gyfnod ei bywyd, drwy ystyried, er enghraifft:

- ∞ Sut y bydd y rhaglen yn gwneud y defnydd gorau o'r sgiliau sydd ar gael yn ne ddwyrain Cymru, ac yn adeiladu arnynt?
- ∞ Sut y bydd yn cynorthwyo'r cenedlaethau nesaf i ennill sylfaen sgiliau eang ac addasadwy a fydd yn eu gwneud yn addas ar gyfer gwaith yn y dyfodol, a chadw mewn golwg y byddant efallai'n ennill eu bywoliaeth yn gwneud gwaith na fedrwn ni eto ei ddychmygu?
- ∞ Sut y bydd yn creu cyfleoedd i fwy o fenywod, pobl hŷn a grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan yn y gweithlu, mewn swyddi cynhyrchiol a boddhaol?

Fel yr amlygwyd gan yr adroddiad Dyfodol Gwaith⁷ "bydd gwaith yn y dyfodol yn fwy cydgysylltiedig ac yn dibynnu mwy ar rwydweithio, lle bydd lleiafrif tra medrus (a nodweddir gan eu creadigrwydd, eu gallu i ddadansoddi a datrys problemau, a'u sgiliau cyfathrebu) yn berchen ar bŵer bargeinio cryf yn y farchnad lafur, tra bydd y rhai llai medrus yn dwyn y baich am yr ymgyrch dros hyblygrwydd a lleihad mewn costau, a hyn yn arwain at anghyfartaledd cynyddol."

Mae'r newidiadau technegol a chyflymder y newidiadau a nodwyd gan Fforwm Economaidd y Byd yn dangos y disgwylir colled o 7.1 miliwn o swyddi'n fyd-eang erbyn 2020, a dau dreian o'r rhain mewn rolau swyddfa a gweinyddu.⁸

⁶ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/922/page/87233>

⁷ <http://mbsportal.bl.uk/taster/subjareas/hrmemptyrelat/ukces/1785622014-evidence-report-84-future-of-work.pdf>

⁸ <http://reports.weforum.org/future-of-jobs-2016/employment-trends/>

Bydd y newidiadau technolegol hyn yn dylanwadu ar argaeledd swyddi i'r boblogaeth iau gan roi iddynt fantais gynyddol o fod wedi tyfu i fyny mewn oes ddigidol. Bydd angen i grwpiau hŷn groesawu technoleg yn ddiwahân ar gyfer cystadlu yn y farchnad lafur.

Mae'r tueddiadau sy'n cael eu rhagamcanu'n peri risg sylweddol i strategaethau economi ehangach a dyfodol yr economi yn y rhanbarth a gweddill Cymru os nad ydym yn gweithredu nawr i gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn.

Mae tueddiadau presennol yn dangos bod y gyfran o rai sy'n gadael yr ysgol gyda sgiliau sylfaenol cymwys mewn chwech o'r 10 Awdurdod Lleol yn is na chyfartaledd Cymru, a fydd yn cael dylanwad arwyddocaol ar eu dyfodol a'u cyfleoedd mewn bywyd. Mae'n holl bwysig bod rhaglenni economaidd yn cael eu dylunio'n fwiadol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn, er enghraifft drwy ffocysu ar gyfleoedd, adnoddau a buddsoddiad mewn ardaloedd o amddifadedd uwch, hyd yn oed os nad yw'r rhain yn debygol o gynnig y cynnydd absoliwt mwyaf mewn Gwerth Ychwanegol Gros.

3. Sut mae hyn yn help cymunedau?

Mae'n amlwg bod llawer o bobl yng Nghymru'n teimlo diffyg cysylltiad rhyngddynt â'r penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, sydd fel arfer yn cael eu gwneud gan eraill ar eu rhan ac a deimlir yn aml fel rhai cwbl aneffeithiol ar gyfer gwella'u bywydau.

Mae Brexit wedi bod yn fodd i dynnu sylw'r rhai hynny sy'n datblygu polisi ac yn cyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Pleidleisiodd y rhan fwyaf o rannau'r rhanbarth yn bendant dros adael yr UE, er gwaethaf y buddsoddiad enfawr o arian yr UE yn eu cymunedau. Mae'n hynod o bwysig i fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio rhaglen y Fargen Ddinesig i ail-gysylltu â chymunedau wrth benderfynu ar eu dyfodol a'u llesiant.

Mae'r Fargen Ddinesig yn debygol o ffocysu'n drwm ar fuddsoddi mewn seilwaith ffisegol, yn arbennig seilwaith trafniadaeth. Gall seilwaith fod yn bwysig mewn galluogi llesiant ond dim ond pan fydd y ffactorau cyd-destunol yn eu lle ac ymdrechion penodol perthnasol yn cael eu gwneud.

Darganfu Adroddiad Pennu Gwybodaeth Parc Rhanbarthol y Cymoedd 2007 nad oedd gan 48% o bobl oedd yn byw yn y cymoedd unrhyw gysylltiad â'u mannau gwyrdd naturiol. Mae astudiaethau Deep Place Tredegar⁹ a Phontypwl¹⁰ yn ne ddwyrain Cymru wedi dadlau dros ffocws llawer cryfach ar systemau meddylfryd mannau cyfan gyda mwy o ffocws ar flaenoriaethau lleol penodol er mwyn sicrhau canlyniadau cyfartal a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau presennol a rhai'r dyfodol. Mae'n rhaid i'r Fargen Ddinesig ystyried cyd-destun penodol a go amrywiol de ddwyrain Cymru a sicrhau bod unrhyw fuddsoddiad mewn seilwaith yn addas yn lleol a hefyd yn hybu enillion ehangach mewn llesiant.

Er enghraifft, sut mae'n mynd i'r afael â'r galw cynyddol am ddarpariaeth gofal cymdeithasol a gofal iechyd yn y tymor-byr-i-ganolig tra'n lleihau ac atal yr angen yn y dyfodol am y fath ddarpariaeth? Ar draws Cymru rhagwelir y bydd diffyg ariannol GIG yn £700m erbyn 2020, ac mae Byrddau Iechyd ar draws y rhanbarth wedi nodi diffyg ariannol o £47 miliwn y flwyddyn hon yn unig. Mae digon o dystiolaeth ar gael am y cysylltiadau rhwng gwaith ac

⁹ http://www.regenwales.org/project_9_The--Deep-Place--Study

¹⁰ <http://www.cardiff.ac.uk/sustainable-places/research/projects/the-deep-place-study>

iechyd ac felly dylai'r Fargen Ddinesig ymdrechu i gyflawni ein dyheadau am genedl iachach, sy'n golygu targedu sylw ar ardaloedd o anweithgarwch economaidd uchel.

Rydym yn gwybod hefyd bod y cysylltiad rhwng amgylchedd ac iechyd yn allweddol, felly mae angen i raglenni sy'n cael eu cyflwyno fel rhan o'r fargen fanteisio ar y cyfleoedd i ddwyn natur i mewn i'r amgylchedd dinesig, gwella mannau gwyrdd cyhoeddus, ac annog beicio a cherdded drwy gynlluniau trafniadaeth. Mae Prif Swyddog Meddygol Cymru wedi enwi anweithgarwch corfforol fel un o'r peryglon mwyaf i iechyd, sy'n costio dros £650m y flwyddyn i Gymru. Ar draws Cymru dim ond 30% o oedolion sy'n cyrraedd y lefelau ymarfer corff a argymhellir (30 munud 5 gwaith neu fwy bob wythnos), ac yn y rhanbarth hwn mae 8 o'r 10 ardal heb fod hyd yn oed yn cyfateb i'r cyfartaledd hwn.

Mae'r hyn sy'n gweithio mewn un gymuned efallai heb fod yn gweithio mewn un arall, felly mae'n bwysig bod pa bynnag ymagwedd a ddewisir yn hyblyg a hefyd yn medru ymateb i ddewisiadau lleol. Gwyddom fod twf yn debygol o gael ei weld yn y dinasoedd mwyaf, Caerdydd a Chasnewydd, tra bydd Blaenau'r Cymoedd yn profi lleihad, a disgwylir i Sir Fynwy weld cynnydd ymhlith y rhai hynny sy'n 65 mlwydd oed a hŷn.

Mae'n rhaid i ranbarth â diwylliant llwyddiannus gael ymdeimlad cryf o hunaniaeth i'w helpu i adeiladu balchder yn eu cynefin, ac eto, nid yw'r mannau lle mae pobl yn gweithio'r un fath â lle maent yn byw. Ar draws y rhanbarth mae 210,000 o bobl yn symud o un Awdurdod Lleol i un arall i weithio ac mae dros 100,000 o bobl yn symud mewn ac allan o Gaerdydd bob dydd. Gyda ffocws ar gynyddu'r nifer o bobl sy'n siarad yr iaith Gymraeg i un filiwn, a'r diwylliant a ddaw yn sgil hyn, dylai'r Rhanbarth fanteisio ar y cyfle hwn i sbarduno gwell integreiddio.

- ∞ Mae gan y Ddinas-Ranbarth y potensial i ddarparu cyfle trawsnewidiol i'r ardal. Drwy ymagwedd arloesol, integredig tuag at reoli a buddsoddi gall y Ddinas-Ranbarth arwain y ffordd mewn creu a chynnal amgylchedd deniadol, ffyniannus a chynhyrchiol sy'n cyflwyno manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynaliadwy ac ansawdd bywyd da i'w holl ddinasyddion. Rhaid i'r Fargen Ddinesig sicrhau bod neilltuolrwydd ac amrywiaeth y rhanbarth yn cael eu hadlewyrchu a'u gwella yn nhermau diwylliant, iaith, ac ymdeimlad o le.

Bydd symud ymlaen mewn dull sy'n seiliedig-ar-le yn dibynnu ar ennyn ymgyfraniad dinasyddion a sefydliadau lleol wrth benderfynu ar strategaethau perthnasol. Mae hyn yn mynd ymhell tu hwnt i weithredu ymarferion ymgynghori o fewn cyfnod penodol, fel sydd eisoes wedi ei wneud, mae'n debyg, gan y Comisiwn Twf a Chystadleurwydd. Mae'n golygu creu mecanweithiau a fydd yn galluogi pobl i ymgysylltu â phenderfyniadau allweddol a'u cyfeirio – penderfyniadau am yr hyn sy'n cael ei wneud yn eu cymdogaeth, drwy gydol oes rhaglen y Fargen Ddinesig, a chydweithio ag ystod lawn o sefydliadau lleol i gyflawni llesiant amlwg iawn.

- ∞ Pa fath o fecanweithiau a gaiff eu rhoi yn eu lle i sicrhau bod llais y gymuned yn brif sbardun mewn datblygiadau penodol a fydd yn digwydd drwy gyfrwng y rhaglen hon?

4. Sicrhau'r fargen orau i genedlaethau'r dyfodol

Yn fyd-eang ac yn y DU mae yna lawer o enghreifftiau o ddinasoedd sydd wedi ystyried eu datblygu economaidd mewn dulliau arloesol sy'n rhoi lle canolog i gynaliadwyedd a dinasyddion.

Er enghraifft, mae Stuttgart wedi gwneud cynllunio tirlunio yn rhan greiddiol o ddatblygiad eu dinas, a thrwy hynny wedi creu 'parc tirwedd rhanbarthol', sy'n dod â manteision niferus cymdeithasol, amgylcheddol a gweithgaredd hamdden ac yn cynyddu cystadleurwydd y rhanbarth fel safle busnes, gan gynorthwyo'i ddatblygiad economaidd tra'n helpu'r rhanbarth i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

Yn yr Unol Daleithiau, mae Portland Oregon yn cyflawni ei nodau cynaliadwyedd drwy newid ei batrymau defnyddio ynni mewn dull hollgynhwysfawr – gan gyfuno mesurau effeithlonrwydd ynni megis newid eu goleuadau stryd i LED a newid i adnoddau ynni adnewyddol glân, gan gynhyrchu pŵer solar a dadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil.

Mae Abertawe'n adeiladu rhaglen eu bargaen ddinesig arfaethedig o gwmpas themâu'n ymwneud â chysylltedd, ynni adnewyddol ac iechyd a llesiant.

Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos ei bod yn bosibl cael sbiral rinweddol o effeithiau ar draws parthau economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol os ydyw'r ymagwedd yn cael ei sbarduno gan weledigaeth sy'n fwy ac yn well na chynyddu gweithgaredd economaidd neu Gwerth Ychwanegol Gros yn unig. Byddem yn dadlau bod Dinas-Ranbarth Caerdydd yn haeddu dim byd llai nag ymagwedd weledigaethol debyg, sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'n dyfodol.